Deddf Cwmnïau 2006

Gweithrediadau

6ed Ebrill 2008

Cwestyinau Cyffredin **GWASANAETH BERR**

Newidiadau o ran cyfrifon (Rhan 15)
i gwmnïau â chyfnodau cyfrifeg yn dechrau ar neu wedi 6 Ebrill 2008

Cafodd y cyfnod cyflwyno cyfrifon ei ostwng o un mis (i gwmnïau preifat a chwmnïau cyfyngedig cyhoeddus fel ei gilydd). Gostyngwyd ar gyfer cwmnïau preifat o 10 mis i 9 mis, ac ar gyfer cwmnïau cyhoeddus o 7 mis i 6 mis. Cyflwynwyd hefyd fisoedd calendr llawn ar gyfer cyfnodau ffeilio. Lle daw'r cyfnod cyfrifeg i ben ar ddiwedd y mis, bydd y cyfnod ffeilio cyfrifon yn dod i ben ar ddiwedd y mis, ac eithrio yn hanes y cyfnod cyfrifeg cyntaf.
Bydd yn ofynnol i fantolen y cyfrifon ac adroddiad y cyfarwyddwyr gyfeirio at ddatganiadau Deddf Cwmnïau 2006.

- **Beth yw'r cyfeiriadau penodol yn Neddf 2006 sy'n ymwneud â byrhau cyfnodau ffeilio cyfrifon, a phryd y deuant i rym?**
  Bydd adran 442 'Y cyfnod a ganiateir i ffeilio cyfrifon', yn dod i rym ar 6 Ebrill 2008. Felly, bydd yn gymwys i bob cyfnod cyfrifeg sy'n dechrau ar neu wedi 6 Ebrill 2008.

- **Pa newid a wnaed i'r datganiadau?**
  Newidiwyd y datganiadau i gyfeirio at Ddeddf 2006. (Am fanylion llawn gweler gwefan Tŷ'r Cwmnïau).

- **A fydd modd o hyd i rai cwmnïau ffeilio cyfrifon cryno?**
  Bydd.

- **A fydd y diffiniad o 'fuddiant cyfranogi' o dan adran 260 o Ddeddf Cwmnïau 1985 yn cael ei ailddeddfu mewn deddfwriaeth eilaidd yn ymwneud â chyfrifeg?**
  Bydd, caiff adran 260 o Ddeddf 1985 ei hailddeddfu heb ei haddasu yn y rheoliadau sydd i'w gwneud o dan Ran 15 o Ddeddf 2006.

Newidiadau o ran ysgrifenyddion (Rhan 12)

Daw'r ysgrifennydd cwmni yn drefn ddewisol i gwmnïau preifat ond bydd yn aros yn orfodol i gwmnïau cyhoeddus.

- **Pryd y daw'r newidiadau o ran ysgrifenyddion cwmni i rym?**
  Bydd y ddarpariaeth sy'n galluogi cwmnïau preifat i ddewis p'un a ddymunant fod ag ysgrifennydd cwmni yn dod i rym ar 6 Ebrill 2008.

- **A fydd arna i angen ysgrifennydd cwmni o hyd ar ôl 6 Ebrill 2008?**
  Bydd cwmni preifat yn cael dewis cadw neu ollwng ei ysgrifennydd cwmni.

- **Os bydd y cwmni'n penderfynu nad yw am fod ag ysgrifennydd cwmni mwyach, beth yw'r proses?**
  Os bydd y cwmni'n penderfynu nad oes arno angen ysgrifennydd cwmni mwyach, bydd yn ofynnol iddo roi gwybod i Dŷ'r Cwmnïau drwy'r drefn WebFiling neu ar ffurflen 288b.

- **A fydd yn ofynnol i'r cwmni ddiwygio'i Erthyglau?**
  Bydd yn ofynnol i'r cwmni ddiwygio'i Erthyglau os oes cyfeiriad penodol at ysgrifennydd i'r cwmni. Ond os at ddyletswyddau ysgrifennydd yn unig y mae'r Erthyglau'n cyfeirio, does dim angen diwygio.

- **Wrth i'r cwmni ddiwygio'i Erthyglau, pa ddogfennaeth y mae'n rhaid ei chyflwyno i Dŷ'r Cwmnïau?**
  Rhaid i'r cwmni gyflwyno penderfyniad ysgrifenedig neu arbennig, ynghyd â fersiwn wedi'i ddiweddaru o'r Erthyglau.

- **A gaiff cwmni fod ag unig gyfarwyddwr a dim ysgrifennydd?**
  Caiff.

- **Oes rhaid i'r ysgrifennydd fod yn unigolyn neu a gaiff fod yn gorfforaethol?**
  Nid yw'r darpariaethau newydd a gaiff eu cyflwyno ym mis Hydref 2009 gyda golwg ar gyfarwyddwyr naturiol, yn gymwys i ysgrifenyddion. Gall ysgrifenyddion fod yn gorfforaethol o hyd.

- **Pryd bydd gweddill y darpariaethau sy'n ymwneud ag ysgrifenyddion yn dod i rym?**
  Bydd y rhain yn dod i rym ar 1 Hydref 2009. O'r dyddiad hwnnw ymlaen, bydd modd i ysgrifenyddion sy'n berson unigol ffeilio cyfeiriad cyflwyno hysbysiadau er mwyn y cofnod cyhoeddus a bydd yn ofynnol i ysgrifenyddion corfforaethol roi manylion eu lleoliad cofrestru a rhif cofrestru'r cwmni lle bo hynny'n gymwys.

Newidiadau o ran cyfalaf (Rhan 20)

Mae angen i gwmnïau cyfyngedig cyhoeddus bennu ai mewn arian sterling neu ewros y maent yn cynnal y cyfalaf cyfrannau lleiafsymiol (gynt, dim ond sterling a ganiateid)

- **Pa adran o Ddeddf 2006 sy'n ymwneud â'r newidiadau o ran cyfalaf cyfrannau lleiafsymiol cwmnïau cyhoeddus?**
  Mae adrannau 761 – 767 o Ddeddf 2006 yn ymwneud â'r cyfalaf cyfrannau lleiafsymiol i gwmni cyhoeddus mewn ewros.

- **Beth yw'r gofynion o ran y cyfalaf cyfrannau lleiafsymiol awdurdodedig mewn arian sterling ac ewros?**
  Y cyfalaf cyfrannau lleiafsymiol a awdurdodir yw **naill ai** £50,000 mewn sterling **neu** €75,000 mewn ewros.

Archwilwyr Ariannol

Oes newidiadau i'r gofynion ar gyfer archwilwyr ac archwilio ariannol o dan Ddeddf Cwmnïau 2006?

Oes. Ar gyfer cyfnodau cyfrifeg yn dechrau ar neu wedi 6 Ebrill 2008 bydd raid i adroddiadau archwilwyr nodi, yn achos unigolyn, enw'r archwilydd a chael eu llofnodi ganddo/ganddi. Lle mae'r archwilydd yn gwmni, rhaid i'r adroddiad nodi enw'r archwilydd statudol uchaf ei safle, enw'r cwmni a chael ei lofnodi gan yr archwilydd statudol yn ei (h)enw ei hun. Rhaid i bob llofnod ar adroddiadau archwilwyr fod wedi ei ddyddio.

A fydd unrhyw eithrio rhag gorfod datgan enw'r archwilydd ar yr adroddiad archwilio ariannol?

Bydd. Os teimla'r cwmni fod peryg trais neu fygwth difrifol i archwilydd neu rywun arall o ganlyniad i ddatgan enw'r archwilydd, caiff fabwysiadu penderfyniad i hepgor yr enw. Rhaid cyflwyno hysbysiad am y penderfyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol. Dim ond i adroddiadau archwilio ariannol sy'n cyfeirio at gyfnodau cyfrifeg yn dechrau ar neu wedi 06 Ebrill 2008 y bydd hyn yn gymwys.

Nodyn – ni ddylid o dan unrhyw amgylchiadau ffeilio copi o'r penderfyniad neu'r hysbysiad yn Nhŷ'r Cwmnïau.

Oes yna newidiadau eraill yn Rhan 16 – Archwilio Ariannol?

Oes. Mae adran 507 bellach yn cynnwys tramgwydd lle bo rhywun yn peri, yn ymwybodol neu'n ddi-hid, i adroddiad archwilwyr gynnwys deunydd camarweiniol, anwir neu dwyllodrus. Bydd y sawl sy'n euog o'r tramgwydd hwn yn agored i ddirwy hyd at uchafswm o £5000.

Mae adrannau 522-525 yn ddarpariaethau newydd sy'n cyflwyno dyletswyddau newydd ar archwilwyr a chwmnïau i roi gwybod i'r awdurdodau priodol wrth i archwilydd roi heibio i'w swydd, gan nodi'r amgylchiadau neu'r rhesymau os o gwbl.

Gweler y gwefannau canlynnol am wybodaeth pellach.(yn Saesneg yn unig)

BERR better regulations home page:
www.berr.gov.uk/bbf/better-regulations/index.html
BERR page on the Companies Act 2006
www.berr.gov.uk/bbf/co-act-2006/index.html
Companies House Website
www.companieshouse.gov.uk